

cyfarfod yn 1838 yn Y *Gwladgarwr*. Roedd Carnhuanawc a Thomas Williams yn flaenllaw yn y gymdeithas honno hefyd.

Pwynt diddorol ond perthnasol iawn hefyd yw fod Thomas Williams yr argraffwr yn brogethwr cynorthwyol gyda'r Wesleaid, ffaith sy'n fwy na digon o brawf ei fod ef a'r gweinidog yn adnabod ei gilydd.

Os dysgodd Robert Edwards ei grefft fel argraffwr yn rhywle y tebygrolwydd yw mai yn argraffdy Thomas Williams yng Nghrucywel y digwyddodd hynny. A phan symudodd y Parchg. Evan Edwards o Gylchdaith Crucywel i Gylchdaith Aberteifi ym mis Awst 1841, y mae'n debyg mai aros gyda Thomas Williams a wnaeth ei fab.

Roedd cyhoeddi'r *Addysg* yn debyg o fod yn fenter fasnachol go sigledig o'r cychwyn cyntaf, y tro cyntaf i gyfrolau Saesneg ar ledaennu gwybodaeth boblogaidd, a oedd wedi cael eu canmol ym Mhrydain a'r America a'u cyfieithu i'r Ffrangeg, gael eu trosi i'r Gymraeg. Oherwydd methiant Y *Gwladgarwr* a thuedd amlwg y Cymry i fod yn hapusach efo dadleuon ysgrythurol y cyfnodolion enwadol, y mae'n debyg nad oedd un o'r argraffwyr sefydlog yng Nghymru, gan ddechrau efo Thomas Williams, Crucywel, ei hun, yn barod i ystyried cyhoeddi'r gwaith, am y rheswm syml nad oeddent yn gweld y peth yn talu. Roedd rhaid i bwy bynnag a oedd am weld y gwaith ar y farchnad, felly gael gafael ar argraffwr a oedd ar dân eisiau gwneud rhywbeth dros y Gymraeg. Mae rhagor o eiriau Rhagdraith Robert Edwards, lle mae o'n datgan 'boddhad neilltuol wrth gyflwyno i'w gydwladwyr y gyfrol gyntaf o *Addysg Chambers i'r Bobl* 'yn hen iaith y Brython' gan hyderu 'y bydd i'w ymdrech greu prifnod newydd yn llenyddiaeth y Cymry' yn dangos eu bod wedi llwyddo i gael un. Petai Robert Edwards heb wrando ar Carnhuanawc y mae'n bosib na fyddid wedi gweld *Chambers's Information for the People* o gwbl mewn diwyg Gymraeg. Tybed, mewn gwirionedd, a fyddai Thomas Gee wedi meddwl am gyhoeddi'r *Gwyddoniadur*?

Treuliodd y Parchg. Evan Edwards dair blynedd yng Nghylchdaith Aberteifi, a dwy flynedd yng Nghaerdydd cyn symud i Lanrwst yn Awst 1846. Yn Llanrwst y oedd pan ddaeth y ddau adroddiad cyntaf o'r *Llyfrau Gleision* allan yn 1847. Ac yntau ond 62 mlwydd oed symudodd Edwards i Bwllheli y flwyddyn honno fel uwchrif ar y Gylchdaith.

Roedd y gweinidog braidd yn ifanc i fynd yn uwchrif os oedd 16

hynny'n awgrymu ei fod yn rhyw hanner ymdeol. Ni wyddys pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw er, ar y naill law, nid yw'n amhosib mai mynd i Bwllheli a wnaeth i blesio'r wraig gan mai un o Llyn oedd hi. Ar y llaw arall, y mae hefyd yn bosib fod Evan Edwards wedi clywed bod gwasg ym Mhwllheli a allai fod ar werth. Y perchennog oedd Isaac Francis Jones, Machynlleth, ond mab ydoedd ef i Richard Jones, gynt o Ddolgellau, argraffwr cyntaf y cylchgrawn Yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, a gŵr yr oedd y gweinidog yn sicr o'i adnabod. Tybed a symudodd Evan Edwards i Bwllheli gyda'r bwriad o helpu ei fab i sefydlu busnes fel argraffwr, ac i gyhoeddi *Addysg Chambers*.

Beth bynnag am hynny, ar ôl cyrraedd Pwllheli roedd angen trefnu cyfieithwyr yn ddi-od ac y mae'n glir mai Eben Fardd oedd y dewis ar gyfer y rhifynnau agoriadol, ond dilynwyd ef gan Owen Jones (Meudwy Môn), Gweirydd ap Rhys, y Parchg. Rees Philpot Griffith (a fu'n weinidog gyda'r Annibynwyr ym Mhwllheli), William Hughes a John Thomas, Chwilog (Siôn Wyn o Eifion). Mae'n ddiddorol mai'r bennod a roddwyd i'w chyfieithu i Siôn Wyn o Eifion, dyn a fu'n gaeth i'w wely am flynyddoedd, oedd yr un ar 'Gadwraeth Iechyd'.

Mae enwau pob un o'r cyfieithwyr ond un, William Hughes, yn ddigon adnabyddus, ond Hughes oedd prif gyfieithydd *Addysg Chambers*, ac ef oedd y mynegeiwr. Cefais dipyn o drafferth i sefydlu pwy oedd William Hughes, ond fel y digwyddodd pethau, dros chwarter canrif yn ôl, wrth olrhain hanes Pwllheli, roeddwn wedi cofnodi priodas yn 1852 yn eglwys Abererch rhwng William Hughes, argraffwr, ac Ellen Parry. Feddyliais i ddim rhagor am y dyn gan nad oedd unrhyw hanes amdano'n argraffu llyfrau yn y dref, ond fe ddaeth y nodyn yn werthfawr ar ôl dechrau olrhain hanes yr *Addysg*. Wrth weld mai William Hughes oedd enw'r prif gyfieithydd dechreuais ystyried hwyrach mai'r William Hughes a briodwyd yn Abererch yn 1852 oedd y dyn hwnnw.

Doedd y dystysgrif briodas yn dweud dim ar wahân i'r ffaith mai mab i Richard Hughes, llongwr, oedd William Hughes, ond yn y gobaith mai am un o'r gogledd yr oeddwn yn chwilio treuliais oriau yn archwilio dogfennau Cyfrifiad y Boblogaeth, 1851 a 1861, ym Mhwllheli, Caernarfon, Bangor, Porthmadog a Dinbych, ond heb ddod ar ei draws. Yna mi gefais dipyn o lwc, ac i ddweud y gwir yr oeddwn yn teimlo bod angen tipyn bach erbyn hynny. Ar amrantiad digwyddais ofyn i'r brawd Huw Ceiriog Jones un awr

ginio yn y Llyfrgell Genedlaethol tybed a wyddai ef rywbeth am argraffwr o'r enw William Hughes.

Dangosodd y seren yn ei lygaid yn syth fy mod wedi taro deuddeg. Cefais yn ddiymdroi hanes cyd-ddigwyddiad ffortunos iawn. Ychydig cyn hynny derbyniodd y Llyfrgell Genedlaethol lythyr o Iwerddon yn holi am gyfrol a gyhoeddwyd gan Hugh Humphreys yng Nghaernarfon yn 1867, sef *Geiriadur Saesneg a Chymraeg, at yr hwn yr ychwanegwyd Rhestr o enwau priodol Lleoedd, &c.*, gyda'u cyfystyron Cymraeg gan Johnson, Webster a Hughes. Ni wyddai'r Gywddelod pwy oedd Hughes. Trwy wybodaeth staff y Llyfrgell, cafwyd gafael ar erthygl ar eirlyfrau yn Y *Genhinen*, 1911, yn dweud mai un o weision Hugh Humphreys oedd William Hughes.

Erbyn hyn roedd y darn yn ôl rhwng fy nannedd. Manteisiais ar fy aelodaeth o Gymdeithas Hanes Teuluol Gwynedd i holi tybed a lwyddwyd, wrth archwilio'r cerrig beddau ym mynwent Llanbeblig yng Nghaernarfon, i ddarganfod carreg fedd William Hughes, argraffwr o'r dref a'i wraig Elin. Tra'n aros am yr ateb dychwelais i'r Llyfrgell Genedlaethol a rhoddais gynnig arall ar olrhain Cyfrifiad y Boblogaeth, y tro yma am 1871 yng Nghaernarfon. Ac ar ôl bore o waith gwelais gofnod o'r teulu yn rhif 23 North Penrallt Street.

Pan gyrhaeddais adref roedd llythyr yn fy aros yn cadarnhau fod bedd William ac Elin Hughes ym mynwent Llanbeblig, yn dweud fod William wedi marw ar y 26 Ionawr 1890. Trwy wybod hynny medrais gael gafael ar nodyn byr am ei farwolaeth yn rhifyn 29 Ionawr 1890 o'r *Genedl Gymreig* yn dweud fod William Hughes wedi gweithio i wasg Hugh Humphreys yng Nghaernarfon am flynyddoedd ac wedi cyfrannu llawer i newyddiaduraeth y dref.

William Hughes, yn enedigol o Gaernarfon, y gŵr a briodwyd yn Abererch yn 1852, felly, oedd prif gynorthwyr Robert Edwards yn y gwaith o ddwyn allan *Addysg Chambers i'r Bobl*. Y gŵr tra anhysbys hwn oedd prif gyfieithydd y gyfrol gyntaf o'r *Addysg* ac ef a luniodd fynegai iddi. Cyfieithodd yn helaeth hefyd i'r ail gyfrol ac ef a luniodd fynegai i honno.

Talcan caled i Robert Edwards oedd cael y gyfrol gyntaf o *Addysg Chambers* allan. Ei fwriad oedd cyhoeddi'r gwaith mewn cyfres o dri ar ddeg o rifynnau, 64 tudalen yr un. Dechreuodd Eben Fardd gyfieithu'r rhai cyntaf yn ystod misoedd yr haf, 1848, ond llusgodd ei draed. Ergyd fawr i Robert Edwards, gellir meddwl, oedd marwolaeth

Carnhuanawc, 7 Tachwedd 1848, ychydig dros ddau fis cyn i'r rhifyn cyntaf ddod allan yng nghanol mis Ionawr 1849. Ni wyddys pa drefniadau a oedd rhyngddynt, ac nid oes dim yn ewylllys Carnhuanawc sy'n dangos unrhyw gysylltiad. Doedd Carnhuanawc ddim, p'run bynnag, yn ddyd cyfoethog ond gallasai, trwy ei gysylltiadau, fod wedi medru bod yn gefn i'r argraffwr.

Yn ddelfrydol, o safbwynt cynnal diddordeb a llwyddiant masnachol, byddai angen cael y rhifynnau allan yn rheolaidd, dyweder pob mis (deufis ar y mwyaf) ar ddydd arbennig. Nid felly y bu. Aeth pum mis heibio cyn cael yr ail rifyn allan ac yn y chwe mis nesaf dim ond tri rhifyn arall a ymddangosodd. Pum rhifyn, felly, yn ystod y flwyddyn 1849, a phump arall yn 1850. Yna fe aeth misoedd heibio yn 1851 cyn cael rhifyn 11 allan a dilynwyd hwnnw gan y gweddill yn weddol fuan.

Bron na ellid dweud fod yr anhrefn yn adlewyrchiad o'r hyn a ddigwyddodd yng ngwasg Thomas Williams yng Nghrucywel efo *Hanes Cymru* Carnhuanawc, lle y cymerwyd bron chwe blynedd i gael 14 rhifyn allan. Dilynodd Robert Edwards, y mae'n ymddangos, y wers a ddysgodd yn ystod ei brentisiaeth!

Mae'n glir fod Edwards wedi cael problemau. Diffyg adnoddau ariannol oedd y bwysicaf, y mae'n debyg. Yn rhifyn 4 hysbysodd y derbynwyr ei bod yn gyfyng arno ac yr oedd yn gorfod ystyried y posibilrwydd o derfynu'r fenter, neu roi llai o dudalennau (48 yn lle 64) yn y rhifyn swlt. Ond petai modd cael rhagor o dderbynwyr galesid cario ymlaen. Ac yn y nesaf fe welir nodyn mwy gobeithiol ond rhybuddiodd Edwards na fyddai'n argraffu mwy o gopiau na'r nifer o danysgrifwyr.

O'r ychydig o lythrau Robert Edwards sydd wedi goroesi, y rhai yng Nghasgliad Cwrtmawr yn y Llyfrgell Genedlaethol, rydym yn gwybod fod Eben Fardd wedi gorfod aros am ei dâl am gyfieithu. Wyddom ni ddim am y berthynas rhwng Edwards a'r cyfieithwyr eraill, er mae'n debyg mai gwas cyflog oedd William Hughes.

Mae un o'i lythrau at Eben Fardd hefyd cystal â dweud nad oedd gan Robert Edwards rwymwr llyfrau digon profiadol i rwymo cyfrol mor dew ag *Addysg Chambers* oblegid roedd yn sôn am fynd â'r cwbl i lawr i ardal gweithfeydd haearn de Cymru i gael eu rhwymo. Os nad oedd ym Mhwllheli rwymwr llyfrau digon profiadol tybed nad oedd un yng Nghaernarfon neu Fangor allasai wneud y gwaith. Mae'r ffaith fod Edwards yn bwriadu mynd i'r de yn awgrymu